

Y Llyfr gan Shelagh Fishlock

“Reit, ‘te, paned sydyn, wedyn i’r gad!”

Doedd Eluned ddim yn edrych ymlaen at y dasg. Ers i’w merch symud i Awstralia a phiodi yna, roedd ei hen ystafell wely wedi’i throi yn stordy: dillad yn aros i fynd i’r siop elusen, teclynnau wedi’u torri, a phentyrrau o flychau cardbord llawn dop o lyfrau ysgol, ffeils a lluniau. Dwedodd Sioned cyn iddi hi adael bod rhaid i’w mam gael gwared â’r holl annibendod, a nawr, mewn llai nag wythnos, byddai hi yma, gyda merch fach ei hun hefyd. Hen bryd, felly, clirio popeth cyn iddyn nhw gyrraedd.

Ar ben awr, roedd sawl bag du yng nghist y car, a’r hen declynnau i gyd yn barod i’r ganolfan ailgylchu, ond roedd y blychau’n dal i aros amdani. Sut allai hi ffarwelio â phlentyndod ei merch annwyl? Ni allai hi daflu popeth heb hyd yn oed gael cip bach. Ochneiodd yn ddwfn wrth agor y blwch cyntaf. Casgliad o hen lyfrau plant â chloriau carpiog oedd ynddo – “Dda i ddim heblaw i’r ailgylchu!” Ond yn sydyn gwelodd Eluned glawr lliwgar mor gyfarwydd – y llyfr storïau plant oedd ffefryn Sioned amser gwely.

Daliodd y llyfr yn ei dwylo, ac eisteddodd ar erchwyn y gwely. Trodd y tudalennau gan gofio’r storïau – pob un wedi cael ei darllen dro ar ôl tro. Caeodd ei llygaid. Bu bron iddi weld pen ei merch ar y gobennydd, a chlywed llais bach cysglyd, “Mam, ga i stori?” Na fydd, fydd hwn ddim yn cael ei daflu. Rhoddodd y llyfr ar y silff uwchben y gwely, ac aeth yn ôl i’r gwaith tacluso.

Aeth y dyddiau canlynol heibio mewn chwinciad, a dyma hi’n gyrru i Heathrow i gasglu’r teulu bach. Roedd hi ar bigau’r drain wrth aros amdany’n nhw, a phan ddaeth y ddwy trwy’r giât teimlodd yn lletchwith, heb wybod yn union sut i groesawu’r ferch oedd yn fam erbyn hyn, a’r wyres fach swil.

Prin iawn oedd y sgwrs ar y ffordd adre. Roedd Sioned wedi blino’n lân, ac yn trio’n ofer tawelu ei merch aflonydd yn sedd gefn y car. Ond unwaith yr oedden nhw adre dechreuodd pawb ymlacio, ac ar ôl swper a bath aeth Eluned â’i hwyres i’r gwely. “Hon oedd ‘stafell wely dy fam, Nia fach, byddet ti’n iawn yma.” Neidiodd Nia i fyny ar y gwely, wedi gweld y llyfr ar y silff. Daliodd ynddo cyn lapio’i hun yn y dwfe.

“Mam-gu, ga i stori?”